# Adroddiad gan Banel Heddlu a Throseddu De Cymru

**PWNC:**

Apwyntiad Mr Matt Jukes fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

**DYDDIAD:**

8 Medi 2017

**PENDERFYNIAD:**

Argymhelliad y Panel oedd y dylai'r Comisiynydd apwyntio Mr Matt Jukes fel Prif Gwnstabl.

**CEFNDIR:**

Mae gan y Panel gyfrifoldeb statudol yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a'r Rheoliadau sy'n gysylltiedig â hi i:

a) Adolygu ac adrodd ar apwyntiad arfaethedig y Prif Gwnstabl
b) Gwneud argymhelliad ar yr apwyntiad arfaethedig

Gall y Panel hefyd, â mwyafrif o ddwy ran o dair, roi feto ar yr apwyntiad arfaethedig.

**APWYNTIAD ARFAETHEDIG:**

Darparwyd adroddiad i'r Panel gan y Comisiynydd cyn i gyfarfod y Panel gael ei gynnal ar 8 Medi 2017. Nododd yr adroddiad Swydd Ddisgrifiad y Comisiynydd, Manyleb y Person a Phroffil Rôl ar gyfer swydd y Prif Gwnstabl. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth gefnogol ar Heddlu De Cymru ar gyfer ymgeiswyr. Esboniodd yr adroddiad yn ogystal, y broses recriwtio a dethol ar gyfer swydd y Prif Gwnstabl. Daethpwyd i'r casgliad, fel y noda'r adroddiad fod y comisiynydd yn argymell apwyntio Mr Matt Jukes fel Prif Gwnstabl ar gyfer Heddlu De Cymru a rhoddwyd rhesymau dros yr argymhelliad. Bodlonwyd y Panel fod yr adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth a amlinellir yn Atodlen 8(3) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Darparodd adroddiad y Comisiynydd y Panel â

gwybodaeth fanwl am y broses ddethol a chraffu. Yn yr adroddiad, darparodd y Comisiynydd y Panel â chopi o adroddiad Mr MJH Lewis; asesydd achrededig annibynnol gyda'r Coleg Plismona a oedd yn fodlon fod y broses ddethol wedi ei gweithredu yn unol â'r egwyddorion o degwch, teilyngdod a didwylledd gan gydymffurfio â'r canllawiau a nodir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gartref ym mis Tachwedd 2012.

Esboniodd y Comisiynydd ei fod wedi gweithredu proses drwyadl a thryloyw a bod Mr Jukes wedi llwyr arddangos ei allu i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

Gwnaeth Mr Jukes gyflwyniad a gofynnwyd cwestiynau i Mr Jukes gan y Panel.

**CASGLIAD:**

Roedd y Panel yn fodlon fod y Comisiynydd wedi gweithredu proses recriwtio a oedd yn drwyadl, gwrthrychol, yn seiliedig ar deilyngdod, tegwch a thryloywder a bod yr ymgeisydd, Mr Jukes yn cyrraedd y safonau disgwyliedig ar gyfer swydd y Prif Gwnstabl.

**ARGYMHELLIAD:**

Argymhelliad unfrydol y Panel felly oedd y dylai'r Comisiynydd apwyntio Mr Matt Jukes yn Brif Gwnstabl ar gyfer Heddlu De Cymru.